CPS

GWASANAETH ERLYN Y GORON

CRYNODEB O STRATEGAETH A CHYNLLUN BUSNES Y CPS (2008-11)

Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) wedi datblygu cryn lawer dros y blynyddoedd diwethaf a bellach mae'n cael ei gydnabod yn rhan allweddol o'r system cyfiawnder troseddol, yn hanfodol o ran cyflwyno cyfiawnder yn effeithiol ac effeithlon.

Mae'r strategaeth a'r cynllun hwn yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed gan y CPS dros y pedair blynedd diwethaf. Ond rydym yn sylweddoli bod rhagor i'w wneud. Mae angen i ni ehangu'r mathau o adfocatiaeth y byddwn yn ymgymryd â nhw a gwella ansawdd ein gwaith yn y maes hwn; mae angen i ni gyfuno cadernid ein penderfyniadau cyhuddo â gwelliannau sy'n sicrhau ein bod yn effeithlon ac yn cefnogi ein partneriaid yn yr heddlu wrth ymdrin â'r troseddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ein cymunedau; ac mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar ran dioddefwyr a thystion er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth y gânt.

Ni fyddwn yn llwyddo oni bai fod ein hymddygiad yn cyfateb i'n dyheadau a bod gan ein pobl y gallu i gwrdd â'r heriau hyn. Mae angen i ni fod yn amlwg a rhagweithiol, gan sicrhau ein bod yn defnyddio ein dylanwad yn gadarnhaol i ennyn hyder yn ein partneriaid a'r cyhoedd - trwy'r gwasanaeth a ddarparwn a'r pethau a ddywedwn. Mae angen i ni ddangos y gwerth rydym yn ei ychwanegu at y system cyfiawnder. Mae angen i ni ddangos ein bod yn llwyddo yn yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni - sef bod yn wasanaeth erlyn i'r cyhoedd.

Mae'r ddogfen grynodeb hon yn rhoi disgrifiad byr ohonom ni a'r prif yrwyr strategol am y cyfnod rhwng 2008-11. Mae'n amlinellu gweledigaeth a strategaeth y CPS ar gyfer y cyfnod hwn, ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn 2008/09 a gweithgareddau eraill ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol a fydd yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

Barwnes Scotland QC
Twrnai Cyffredinol

Syr Ken Macdonald QC
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Peter Lewis
Prif Weithredwr

Ynghylch y System Cyfiawnder Troseddol (CJS)

Y CJS yw un o'r prif wasanaethau cyhoeddus yn y wlad; mae'n cwmpasu gwaith Gwasanaeth yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (sy'n cynnwys carcharau a phrawf) a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

O fewn llywodraeth ganolog, mae tair adran yn gyfrifol ar y cyd am y System Cyfiawnder Troseddol a'i hasiantaethau. Sef:

- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) - sy'n gyfrifol am gyfraith trosedd a dedfrydu, am ostwng aildroseddu ac am lysoedd, carcharau a phrawf.
- Y Swyddfa Gartref (HO) - sy'n gyfrifol am ostwng troseddu, plismona, diogelwch a gwrthderfysgaeth, ffiniau a mewnfudo, pasportau a hunaniaeth.
- Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol (AGO) - sy'n gyfrifol am waith Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Adran Cyfreithwyr y Trysorlys (TSol), Swyddfa Twyll Difrifol (SFO), Swyddfa Erlyn Cyllid a Thollau (RCPO), ac Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI). Y Twrnai Cyffredinol a'r Cyfreithiwr Cyffredinol (Swyddogion y Gyfraith) yw'r prif gynghorydd cyfreithiol i'r Llywodraeth ac maent yn gyfrifol am holl ymgyfreitha'r Goron.

Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR) sy'n gyfrifol am gydgysylltu ymdrechion y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol. Mae'n bwrw ymlaen â gwelliannau a bennir gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol (NCJB). Mae'r NCJB yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Cartref, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Twrnai Cyffredinol. Yn lleol, bydd 42 Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) yn cydgysylltu gweithgarwch a rhannu cyfrifoldeb dros gyflwyno cyfiawnder troseddol yn eu Rhanbarth.

Ynghylch Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

Y CPS yw'r sefydliad mwyaf i gael ei arolygu gan y Twrnai Cyffredinol, ac fe'i sefydlwyd yn 1986 fel awdurdod annibynnol i erlyn achosion troseddol y bydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ymchwilio iddynt. Wrth ymgymryd â'r rôl hon, bydd y CPS yn:

- Cynghori'r heddlu yn ystod camau cynnar ymchwiliadau
- Pennu'r cyhuddiadau priodol ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf
- Adolygu pob achos yn barhaus a phenderfynu pa achosion ddylai gael eu herlyn
- Paratoi achosion i'w herlyn yn y llys ac erlyn yr achosion gydag adfocadau mewnol neu gyfarwyddo asiantau a chwnsler i gyflwyno achosion
- Rhoi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

Gyrwyr Strategol

Wrth ail-lunio ein gweledigaeth a'n strategaeth, rhoddwyd ystyriaeth i nifer o yrwyr busnes allanol a mewnol:

- Prif strategaethau a chynlluniau'r Llywodraeth:
  > *Cutting Crime: A New Partnership 2008-11*, sy'n fwy adnabyddus fel y Strategaeth Droseddu
  > *Working Together to Cut Crime and Deliver Justice* - Cynllun Strategol y CJS ar gyfer 2008-11
- Mae dau Gytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) yn fwyaf uniongyrchol berthnasol i waith y CPS a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, sy'n eiddo ar y cyd i'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol
  > PSA 24 sydd â'r nod o gyflwyno System Cyfiawnder Troseddol fwy effeithiol, eglur ac ymatebol i ddioddefwyr a'r cyhoedd
  > PSA 23 'Gwneud cymunedau yn fwy diogel' sy'n canolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd rhag trosedd treisgar difrifol, gostwng lefel trosedd meddiangar difrifol, mynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau aildroseddu
- Amcan Strategol Adrannol (DSO) y CPS: Dod â throseddwyr gerbron llys, gwella gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion a hybu hyder, trwy gymhwyso'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron, gan fabwysiadu ymagwedd gymesur i benderfynu ba droseddwyr y dylid eu cyhuddo a pha rai y dylid eu dargyfeirio o'r llys, a thrwy gyflwyno achosion yn gadarn a theg yn y llys
- Adnoddau'r CPS: Yn debyg i lawer o adrannau, fe osodwyd targedau ariannol heriol i'r CPS a bydd y gyllideb i'r CPS yn gostwng mewn termau real dros dair blynedd y cyfnod CSR07 yn ôl 3.5% y flwyddyn
- Argymhellion yn dilyn yr Adolygiad Gallu: mae'r CPS wedi cydnabod bod ganddo nifer o feysydd allweddol ble bydd angen rhagor o welliannau os yw'n mynd i gyflawni dros y 3 i 5 mlynedd nesaf. Er enghraifft, ein bod yn meithrin balchder mewn rhagoriaeth gan werthfawrogi cyfraniadau ein holl bobl i'r busnes, yn enwedig wrth gyflwyno'r busnes creiddiol yn y llysoedd ynadon.

Gweledigaeth y CPS

Mae'r CPS yn wasanaeth erlyn sy'n hyderus ac annibynnol, yn effeithlon ac effeithiol - yn datblygu i fod o ansawdd byd-eang. Y mae popeth a wnawn yn ceisio cyflwyno cyfiawnder i bawb a gwneud ein cymunedau yn fwy diogel.

Rhaglenni gwaith y CPS sy'n cael blaenoriaeth

Er mwyn cynorthwyo i wireddu'r weledigaeth hon, mae'r CPS wedi nodi chwe rhaglen flaenoriaeth ar gyfer 2008/9 a thu hwnt:

- **Gwella perfformiad yn y llysoedd ynadon**
- **Cwblhau a sefydlu ein Strategaeth Adfocatiaeth**
- **Canolbwyntio ein cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion**
- **Chwarae ein rhan i gyflawni targedau PSA y cytunwyd arnynt ar gyfer 2008-11: cyfraniadau eraill**
- **Ad-drefnu ein model cyflwyno i wella perfformiad, yn enwedig mewn achosion difrifol, a rhoi gwell gwerth am arian**
- **Sicrhau ein bod yn arwain a rheoli'n dda i gael y gorau gan holl bobl y CPS, a'n bod yn ymgysylltu â nhw, â'n partneriaid a'n cymunedau i wella ein gwasanaeth.**

Tra bo'r pedair gyntaf yn rhaglenni penodol sy'n ceisio newid yr hyn a wnawn, mae'r bumed a'r chweched yn ymwneud â newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau, i'n gwneud yn fwy effeithlon fel sefydliad a newid ein hymddygiad er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r holl flaenoriaethau eraill, gan symud tuag at ddiwylliant o welliant parhaus a gwneud y CPS yn sefydliad o ansawdd byd-eang.

GWELLA PERFFORMIAD YN Y LLYSOEDD YNADON

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Y Model Busnes Optimwm (OBM) Perchennog Mike Kennedy	Nod OBM yw adolygu a nodi arferion gorau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llysoedd ynadon	Gyrru gwelliannau effeithlonrwydd gweithredol fel rhan o gylch gwelliant parhaus ar draws Rhanbarthau'r CPS	Erbyn Medi 2008 - pob Rhanbarth i fod wedi gweithredu OBM	Datblygu arweinwyr a rheolwyr ar draws y CPS i gefnogi diwylliant o welliannau parhaus ar bob lefel	Ymestyn ymdriniaeth OBM i feysydd eraill ym musnes y CPS
Cyfiawnder Troseddol Syml, Cyflym, Diannod yn y llysoedd ynadon (CJSSS-MC) ac yn y Llys Ieuenctid (CJSSS-YC) Perchennog Mike Kennedy	Nod CJSSS yw gwneud cyfiawnder yn gyflymach, mwy effeithlon ac effeithiol - i wella'r CJS ar gyfer dioddefwyr, tystion a throseddwyr yn ogystal â'r cyhoedd	Penderfynu ar fwyafrif y pledion euog o fewn y gwrandawiad cyntaf Penderfynu ar fwyafrif yr achosion a ymleddir o fewn dau/tri gwrandawiad Mwyafrif yr achosion cyhuddiad syml i gymryd ar gyfartaledd dim mwy na chwe wythnos o'r cyhuddiad i'r penderfyniad	Erbyn Ebrill 2008 - bod wedi gorffen cyflwyno hyn ar draws pob un o'r 42 Rhanbarth Erbyn Mawrth 2009 - ymestyn a chwblhau cyflwyno CJSSS yn y Llys Ieuenctid ar draws y 36 Rhanbarth sy'n weddill	Delio â mwyafrif cynyddol o bledion euog yn y gwrandawiad cyntaf; penderfynu ar achosion a ymleddir o fewn dau/tri gwrandawiad; a dechrau'r achosion cyhuddiad syml o fewn chwe wythnos i'r gwrandawiad cyntaf	

Datblygu dulliau cymesur o ymdrin ag achosion syml (gelwir hyn yn Broses Symlach - SP) Perchennog Mike Kennedy	Nod SP yw cyflwyno ffordd fwy gymesur o baratoi erlyniad ar gyfer pledion euog a ragwelir a phledion dieuog a ragwelir, y ddau yn addas i'w penderfynu yn y llys ynadon	Cyflwyno trefn symlach o lunio ffeil ar gyfer y gwrandawiad cyntaf	O fis Medi 2008 - os bydd gwerthusiad o'r Rhanbarthau prawf yn gadarnhaol - cytuno ar raglen gyflwyno gyda phartneriaid yn yr heddlu	Cwblhau rhaglen gyflwyno y cytunwyd arni a dechrau gweld y manteision	Mireinio'r broses symlach yn unol â chasgliadau'r Adolygiad Ôl-weithredol (PIR) a chynyddu'r manteision
Rhybuddio amodol Perchennog Mike Kennedy	Y nod yw dargyfeirio achosion oddi wrth y llysoedd ynadon trwy rybuddio amodol: penderfyniad a wneir gan erlynydd y CPS	Cynnydd parhaus yn nifer y rhybuddion amodol a roddir, a thrwy hynny ddargyfeirio achosion addas oddi wrth y llysoedd ynadon Goruchwylio newidiadau i rybuddio amodol o ganlyniad i'r Codau Ymarfer newydd	Erbyn Mehefin 2008 - ceisio cymeradwyaeth gweinidogol ar gyfer Codau Ymarfer Diwygiedig ar gyfer rhybuddio amodol	Sefydlu rhybuddio amodol fel dull gan y CPS i gyfrannu at gyfiawnder cyflymach ac atal aildroseddu	Gwerthuso effaith rhybuddio amodol ar lwyth achosion llysoedd ynadon ac aildroseddu

ADFOCATIAETH FEWNOL

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Strategaeth Adfocatiaeth Perchennog Mike Kennedy	Nod y Strategaeth Adfocatiaeth yw trawsnewid y CPS yn Wasanaeth sy'n mynd ati fel mater o drefn i gynnal ei adfocatiaeth ei hun, o ansawdd uchel, ym mhob llys ac ar draws yr ystod lawn o achosion. Bydd hyn o fantais i'r CPS, y system cyfiawnder troseddol (CJS) ehangach, a'r cyhoedd	Bydd cynnydd yn y gwasanaeth mewnol yn genedlaethol mewn llysoedd ynadon yn arwain at achosion yn symud yn well trwy'r llysoedd a bydd yn cynyddu profiad cyfreithyddion o adfocatiaeth treialon ynadol Bydd defnyddio mwy ar Weithwyr Achosion Penodol Dynodedig (DCW) cenedlaethol mewn llysoedd ynadon yn darparu adfocatiaeth un pwrpas a chymesur mewn llysoedd ynadon gydag achosion syml, gan ryddhau cyfreithyddion i ganolbwyntio ar faterion mwy cymhleth Bydd defnyddio mwy ar Adfocadau Llysoedd Uwch (HCA) yn Llysoedd y Goron yn rhoi mwy o brofiad o adfocatiaeth treialon i gyfreithyddion y CPS a gwella gwerth am arian	Erbyn Mai 2008 - sicrhau estyn pwerau statudol DCW Datblygu a chyflwyno Strategaeth Rheoli Ansawdd Adfocatiaeth i gefnogi gwelliannau parhaus yn safon adfocatiaeth fewnol	Cwblhau a gwerthuso cyunlluniau braenaru DCW treialon ynadol Cynyddu'r defnydd o HCA yn Llys y Goron, yn enwedig mewn treialon sylweddol o hyd at bum niwrnod, a thu hwnt Cynyddu'r defnydd o DCW a faint sy'n fewnol mewn llysoedd ynadon ym mhob Rhanbarth Cynnal adroddiad dilynol ar sail Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) 2007 a'i argymhellion	Cwblhau cyflwyno pwerau treialon ynadol DCW yn genedlaethol Cynyddu'r defnydd o HCA yn Llys y Goron, yn enwedig mewn treialon cymhleth o hyd at 10 diwrnod a thu hwnt, ac mewn achosion costus, un ai fel adfocad unigol neu fel adfocad ieuaf Cynyddu'r defnydd o DCW a faint sy'n fewnol mewn llysoedd ynadon Mawrth 2011 - cau'r rhaglen

Mwy o brofiad o adfocatiaeth treialon yn y llysoedd ynadon a Llysoedd y Goron yn gwella perfformiad yn gyffredinol, gan gynnwys cyhuddo ac adeiladu achosion yn effeithiol, gan arwain at well gwasanaeth i ddioddefwyr, tystion a'r cyhoedd

GOFAL I DDIODDEFWYR A THYSTION

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Gweithredu Strategaeth Dioddefwyr a Thystion 2008-11 Perchennog Mike Kennedy	Am y tro cyntaf, mae Strategaeth Dioddefwyr a Thystion 2008-11 yn rhoi strategaeth unedig i gyflwyno gweledigaeth y CPS i eiriol dros gyfiawnder a hawliau dioddefwyr a thystion	Proses erlyn gryfach trwy sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn mynychu ac yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau, a gwneud gwelliant sylweddol yn safonau gofal dioddefwyr a thystion sy'n cyfrannu at ganlyniadau gwasanaeth cyhoeddus perthnasol a gynhwysir yn nharged PSA Cyfiawnder (PSA 24)	Erbyn Gorffennaf 2008 - adolygu effaith y Cynllun Gweithredu ar Gyfathrebu yn Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) ac asesu a oes angen gweithredu pellach Erbyn Mawrth 2009 - Datblygu dull effeithiol o werthuso gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion a fydd yn ceisio barn y tu hwnt i'r Arolwg Profiad Tystion a Dioddefwyr (WAVES)	Erbyn Mawrth 2010 - adolygiad amlddisgyblaethol o adnoddau a neilltuir i ofal dioddefwyr a thystion Cyhoeddi datganiad polisi cyhoeddus cynhwysfawr ar ofal dioddefwyr a thystion gan y CPS	Erbyn Medi 2010 - ymarferiad rhychwantu ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol a'r gefnogaeth weithredol sydd ei hangen i hysbysu Strategaeth Dioddefwyr a Thystion 2012-14 Erbyn Mawrth 2011 - adolygu a gwerthuso polisïau allweddol gofal dioddefwyr a thystion

Strategaeth trais yn erbyn menywod (VAW) Perchnogion Séamus Taylor Roger Daw	Nod y strategaeth yw sicrhau y gellir cydgysylltu amrediad o droseddau sy'n dod dan ambarél VAW, a rhoi gwell ymateb wrth erlyn. Mae'r rhain yn cynnwys trais yn y cartref (DV), treisio, troseddau rhywiol, troseddau anrhydedd, puteindra a'r fasnach mewn pobl	Gwella erlyniadau troseddau VAW (canlyniadau aflwyddiannus VAW yn gostwng yn gyffredinol i: 29%, DV: 28%, treisio: 41%, a throseddau rhywiol eraill: 28%) Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr Gwella ein dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn troseddau VAW a mynd i'r afael ag unrhyw anghyfartaledd	Erbyn Mehefin 2008 - sefydlu 36 Llys DV Arbenigol gyda chefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer dioddefwyr Cwblhau hyfforddiant DV i erlynwyr, gweithwyr achosion penodol a DCW	Ehangu'r dangosydd VAW i gynnwys rhagor o linynnau VAW Cyhoeddi adroddiad perfformiad VAW o ddata 2008/09 Gweithio gydag Adnoddau Dynol i ymdrin ag unrhyw faterion VAW yn y polisïau ac arferion staff	Erbyn 2010 - dangosydd VAW i gynnwys monitro perfformiad DV, treisio, troseddau rhywiol, priodas dan orfod, troseddau anrhydedd bondigrybwyll, cam-drin plant, troseddau yn erbyn pobl hŷn, puteindra a'r fasnach mewn pobl Cyhoeddi Adroddiad Perfformiad VAW o ddata 2009/10 Mesur bodlonrwydd, diogelwch a mynediad at gefnogaeth i ddioddefwyr
Adnewyddu Datganiad Polisi Cyhoeddus y CPS ar Dreisio Perchennog Roger Daw	Diweddaru dogfen sydd eisoes yn bod, i roi ystyriaeth i newidiadau yn y gyfraith ac arferion a threfniadau'r CPS ers cyhoeddi'r argraffiad cyntaf	Disgrifio safon y gwasanaeth y gall y cyhoedd ei ddisgwyl mewn perthynas ag achosion o dreisio a chynyddu hyder y cyhoedd yn y CJS Gwella erlyniadau treisio Mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr treisio Gostwng cyfradd athreuliad mewn achosion treisio	Erbyn diwedd Hydref 2008 - ei gymeradwyo gan y DPP a Swyddogion y Gyfraith, a lansio	Sicrhau bod canllawiau wedi'u diweddaru trwy ychwanegu datblygiadau cyfraith achosion deddfwriaethol ac unrhyw ddatblygiadau trefniadol	Cwblhau hyfforddiant pob erlynydd arbenigol ar dreisio

CHWARAE EIN RHAN YN CYFLAWNI TARGEDAU PSA CYTÛN AR GYFER 2008-11: CYFRANIADAU ERAILL

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Adennill asedau Perchennog Mike Kennedy	Y nod yw gwireddu'r buddiannau yn sgil deddfwriaeth elw troseddau (POCA)	Cyfrannu at y targed gorfodi ar gyfer pob asiantaeth, sef adennill £200m o asedau troseddol, gydag £120m yn dod o atafaelu	Erbyn Mawrth 2009 - cynyddu'r defnydd o adfocadau POCA arbenigol trwy hyfforddiant HCA arbenigol	Cyfrannu at y targed ar gyfer pob asiantaeth, sef adennill £250m o asedau troseddol erbyn 2009/10, gydag £150m yn dod o atafaelu	Targedau gorfodi pob asiantaeth eto i'w cytuno Uchelgais y Swyddfa Gartref yw amddifadu troseddwyr o hyd at £1 biliwn y flwyddyn yn y tymor hir
Deddfwriaeth ymddygiad gwrth-gymdeithasol Perchennog Mike Kennedy	Gwella'r ffordd y mae'r CPS yn gweithredu deddfwriaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) a gweithio gydag asiantaethau partner i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	Gwelliannau i ymateb y CPS i ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy hyfforddiant mewnol a rhyngasiantaethol Gweithio'n agosach mewn partneriaeth Erlynwyr ASB arbenigol	Erbyn Mai 2008 - rhwydwaith cenedlaethol o erlynwyr yn arwain ar waith ymddygiad gwrthgymdeithasol y CPS wedi'i sefydlu	Rhaglen waith a cherrig milltir cysylltiol eto i'w pennu	Rhaglen waith a cherrig milltir cysylltiol eto i'w pennu

Troseddwyr Cyson a Blaenoriaeth (PPO) Perchennog Mike Kennedy	Mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol y nifer fach ddi-ildio o droseddwyr sy'n cyflawni nifer anghymesur o droseddau, gan niweidio cymunedau lleol	Canolbwyntio ar y materion sydd â'r flaenoriaeth fwyaf ym mhob ardal a'r troseddwyr mwyaf niweidiol, yn enwedig troseddwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau Gweithio mewn partneriaeth i ostwng aildroseddu, trwy raglen PPO a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau	Parhau i gyflwyno Gwasanaeth Premiwm PPO CJS, a ddarperir yn lleol (mae'r Gwasanaeth hwn yn cael ei yrru gan LCJB) gyda chefnogaeth leol gan asiantaethau allweddol gan gynnwys y CPS Cyflwyno canllawiau cyfreithiol ar PPO	Adolygu cyfraniad y CPS at Wasanaeth Premiwm PPO CJS a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol	Parhau i ddarparu gwasanaeth sy'n cael blaenoriaeth mewn perthynas â PPOs, a chefnogi cyflwyno Gwasanaeth Premiwm PPO CJS
Strategaeth Monitro a Hysbysu Troseddau Casineb Perchnogion Séamus Taylor Mike Kennedy	Mae'r strategaeth yn darparu ar gyfer cofnodi, dadansoddi ac adrodd ar ddata hanfodol ynghylch erlyn digwyddiadau hiliol, digwyddiadau crefyddol, trosedd homoffobig a throsedd anabledd gwaethygol.	Gostwng canlyniadau aflwyddiannus ar droseddau casineb i 18% Cyhoeddi adroddiadau troseddau casineb blynyddol ac Adroddiad VAW Gwneud rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r ffordd y bydd y CPS yn delio â throseddau casineb	Erbyn Medi 2008 - cytuno ar Adroddiad Troseddau Casineb Blynyddol ac Adroddiad VAW cysylltiedig a gwneud trefniadau i gyhoeddi	Gostwng canlyniadau aflwyddiannus ar droseddau casineb i 17%	Gostwng canlyniadau aflwyddiannus ar droseddau casineb i 16%

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Ailstrwythuro rhanbarthol (1:15:42) Perchennog Mike Kennedy	Gweithredu Unedau Gwaith Achosion Penodol Cymhleth (CCU)	Gwella gallu'r Gwasanaeth i ddelio'n effeithiol ac effeithlon â gwaith achosion penodol cymhleth ar lefel Ranbarthol trwy weithredu Uned Gwaith Achosion Penodol Cymhleth o fewn pob un o'r 14 Grŵp, ac yn CPS Llundain	Erbyn Mehefin 2008 - sefydlu rhwydwaith o CCU gan roi sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â'r Glasbrint, hwyluso hyfforddiant arbenigol a rhannu arferion gorau	Erbyn Ebrill 2009 - gwerthuso'r rhaglen, gan arwain at gynlluniau i gael gwelliannau pellach	Diwylliant o welliant parhaus i'w weld o fewn CCU a Chanolfannau Gweithredu'r Grŵp, gan arwain at well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
	Gweithredu Canolfannau Gweithredu'r Grŵp (GOC), a Byrddau Strategaeth y Grŵp (GSB)	Gwella gwytnwch a chynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trwy weithredu'r 14 Grŵp a GSB gan fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau medrus yn fwy effeithiol ar draws ffiniau Rhanbarthau o fewn Grwpiau a chyda gwell arbedion maint a medrau	Gorffennaf 2008 - isafswm staff i weithredu'r model GOC wrth eu gwaith Medi 2008 - gweithredu fframwaith a mesurau safonau perfformiad gofynnol	Erbyn Ebrill 2009 - gwerthuso'r rhaglen gan arwain at gynlluniau i sicrhau gwelliannau pellach	

Gweithredu Adolygiad Pencadlys (HQ) y CPS Perchennog John Graham	Pwrpas Adolygiad y Pencadlys yw egluro rôl y pencadlys, nawr ac yn y dyfodol, trwy ddatblygu cynigion ar gyfer strwythur a swyddogaeth pencadlys modern Fe fydd yn edrych hefyd ar gynyddu cyfleoedd i rannu gwasanaethau gyda sefydliadau eraill y llywodraeth	Strwythur terfynol y pencadlys a chynllun gweithredu ar gyfer cyflawni ar draws y cyfnod tair blynedd Bydd y newidiadau i'r pencadlys yn arwain at ostyngiad o 5% y flwyddyn o leiaf mewn costau gweinyddol a chefnogi'r nod o gyfeirio cymaint o adnoddau â phosib i gyflwyno yn y rheng flaen	Erbyn diwedd Ebrill 2008 - cwblhau strwythur manwl y pencadlys a lefelau staffio ar gyfer pob cyfarwyddiaeth	Cam o newid sylweddol tuag at bencadlys modern wedi'i symleiddio, gyda chraidd strategol o bobl yn Llundain Gostyngiad pellach o 5% mewn costau gweinyddol	Pencadlys modern wedi'i symleiddio gyda chraidd strategol o bobl yn Llundain Gostyngiad pellach o 5% mewn costau gweinyddol



SICRHAU EIN BOD YN ARWAIN, RHEOLI AC YMGYSYLLTU

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Sicrhau ein bod yn arwain…					
Cefnogi Arweiniad Perchennog Ros McCool	Sefydlu model arweiniad y CPS mewn strwythurau recriwtio, cyflwyno, rheoli talent, llywodraethu Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff ar bob lefel i reoli ac arwain yn hyderus	Darparu archwiliad llawn o ymddygiad arweiniad Nodi'r rhai â thalent am arwain Gwell sgiliau arwain Rhaglenni newydd ar arwain a datblygu ym maes rheoli sy'n canolbwyntio'n glir ar anghenion busnes y CPS	Erbyn Ebrill 2008 - cytundebau perfformiad Prif Erlynydd y Goron/Uwch Was Sifil wedi'u sefydlu Erbyn Mehefin 2008 - cytuno ar strategaeth rheoli talent Erbyn Tachwedd 2008 - hysbysu uwch reolwyr am ganlyniadau cychwynnol cynllunio olyniaeth Erbyn Mawrth 2009 - gwerthuso'r cam cychwynnol i ddangos gwell sgiliau arwain ar draws y CPS	Gwell adborth yn yr arolwg staff ac Asesiadau Perfformiad Cyffredinol yn ymwneud â rheoli newid ac arweiniad Rhanbarthol	Ymddygiad arwain yn gynyddol ragorol ym mhob rhan o'r CPS fel y dangosir gan hyder yn yr uwch reolwyr heb yr un Rhanbarth yn cael cyfradd sâl ar gyfer arweiniad mewn Asesiadau Perfformiad Cyffredinol

Sicrhau ein bod yn rheoli…					
Rheoli'n Well Perchennog Ros McCool	Egluro rôl ac awdurdod rheolwyr, gan sicrhau bod ganddynt y dulliau addas i wneud eu gwaith, gan gynnwys sgiliau rheoli perfformiad effeithiol	Yr holl staff yn cael adolygiadau rheolaidd yn unol â'r broses Adolygu Perfformiad a Datblygiad (PDR) a chael yr adborth angenrheidiol i'w helpu i wella'r hyn a wnânt Rheolwyr yn ymgymryd â rheoli perfformiad trwyadl a theg	Dangosyddion rheoli o fewn mesurau pobl wedi'u hasesu gan Ranbarthau gyda'r system Adolygu Perfformiad Rhanbarthol (APR)	Arolwg Staff yn dangos cynnydd yn nifer y staff sy'n credu bod perfformiad gwael yn cael ei reoli'n dda	CPS yn cyflawni statws Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP) corfforaethol Nifer y staff sy'n credu bod perfformiad gwael yn cael ei reoli'n dda yn hanner uchaf y gwasanaeth sifil
	Cyflwyno rhaglen o adolygiadau polisi Adnoddau Dynol sy'n cefnogi rheolwyr	Polisïau newydd a diwygiedig wedi'u sefydlu yn arferion gwaith rheolwyr a staff	Cyhoeddi amserlen ar gyfer polisïau newydd a diwygiedig	Adolygu egwyddorion datblygu polisi	Canlyniadau arolwg staff yn dangos gwelliant yn y dangosyddion allweddol
	Datblygu a gweithredu strategaeth rheoli mynychu	Systemau a chefnogaeth yn eu lle i helpu rheolwyr i wella cyfraddau absenoldeb ble nad ydynt yn cadw at y targed	Cytuno ar strategaeth dair blynedd gyda'r Bwrdd Strategaeth Adnoddau Dynol	Cyflwyno llinyn lles y strategaeth gyffredinol ar bobl	Absenoldeb salwch yn gostwng i'r lefel isaf a geir mewn sefydliadau sy'n gymaryddion

SICRHAU EIN BOD YN ARWAIN, RHEOLI AC YMGYSYLLTU

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Rheoli gwybodaeth bersonol yn ddiogel ar bob cam Perchennog David Jones	Cydnabod yr adolygiad ar drefniadau trin data o fewn y llywodraeth Gweithredu'r gofynion gorfodol i sicrhau bod y sefydliad yn nodi a rheoli ei risgiau gwybodaeth	Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diogelu i'r safon a fynnir gan y llywodraeth a'r safonau disgwyliedig gan swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Mehefin 2008 - cynllun manwl yn trafod sut y rhoddir sylw i'r gofynion Gorffennaf 2008-Mawrth 2009 - gweithredu'r gofynion	Parhau i gydymffurfio â'r gyfres system reoli diogelwch	Parhau i gydymffurfio â'r gyfres system reoli diogelwch
Rhaglen Glasbrint Gweithredol - model ar gyfer cyflwyno gwasanaethau rheng flaen, lleol yn y dyfodol Perchennog Mike Kennedy	Mae'r rhaglen hon yn ceisio disgrifio model cytûn o egwyddorion er mwyn cyflwyno gwasanaethau rheng flaen yn y dyfodol Bydd y model yn cael ei ddefnyddio, yn gyntaf, i nodi unrhyw fylchau yn y rhaglen flaenoriaeth bresennol y mae'n rhaid ymdrin â nhw ac, yn ail, i hysbysu'r busnes yn y tymor hir am effeithiau unrhyw newidiadau a awgrymir o ran cyflwyno yn y rheng flaen	Datblygu Glasbrint Gweithredol ar gyfer gwasanaethau rheng flaen lleol Model ar gyfer y CPS i'r dyfodol gydag arferion a phrosesau gwaith cytûn, y wybodaeth sy'n ofynnol a'r dechnoleg a fydd yn angenrheidiol i gyflwyno'r galluoedd yn y model gweithredol	Medi 2008 - Cyflwyno Glasbrint Gweithredol a Chynllun y Rhaglen i Fwrdd y CPS i gael sêl bendith Hydref 2008 - os bydd y cynllun yn cael sêl bendith, dechrau ei roi ar waith yn genedlaethol	Erbyn Mawrth 2010 - gwasanaeth safonol, cyson ac o safon uchel yn cael ei ddarparu ar draws pob uned weithredol yng Nghymru a Lloegr (gan sicrhau'r gwerth gorau posib am yr arian, ac yn unol â gweledigaeth y CPS)	Erbyn Mawrth 2011 - gweithrediadau rheng flaen yn cael eu trefnu a'u bod yn hyblyg er mwyn cwrdd â gofynion busnes cyfredol ac yn y dyfodol Diwylliant o welliant parhaus ar draws ein gweithrediadau

Sicrhau ein bod yn ymgysylltu…					
Ymgysylltu â staff Perchennog Ros McCool	Datblygu rhaglen i ymgorffori gwerthoedd y CPS	Sefydlu mesuriad llinell sylfaen ar ddyfnder dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o weledigaeth a gwerthoedd y CPS	Mai 2008 – cynnal arolwg staff	Arolwg staff yn dangos bod staff yn deall a derbyn datganiad gweledigaeth a gwerthoedd y CPS	Gwell canlyniadau yn yr arolwg staff ar ymgysylltu
Agenda Ymgysylltu Cymunedol (CE) Perchennog Séamus Taylor	Mae agenda ymgysylltu cymunedol y CPS yn ceisio ymgynghori â chymunedau a'u cynnwys yn ein polisïau a'n cynlluniau	Cynyddu ymgysylltiad rhanddeiliaid cymunedol (ar lefel Ranbarthol a Grŵp) a bodlonrwydd Cynyddu llwyddiant wrth erlyn troseddau casineb Cynyddu nifer y Rhanbarthau a ystyrir yn wyrdd ar CE a llai o Ranbarthau yn cael eu hystyried yn ambr a choch	Erbyn Ebrill 2008 - Paneli Craffu ar Drosedd Casineb (HCSP) yn eu lle ym mhob Rhanbarth y CPS ac yn cwrdd bob chwarter Erbyn Hydref 2008 - strategaeth CE yn ei lle ar gyfer pob Grŵp	Parhau i weithredu HCSP a CIP Mesur bodlonrwydd cyfranogwyr gyda HCSP a CIP Mesur effaith HCSP ar y gyfradd athreuliad	Adolygu a mireinio HCSP a CIP

SICRHAU EIN BOD YN ARWAIN, RHEOLI AC YMGYSYLLTU

Gweithgareddau busnes		2008-09		2009-10	2010-11
Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Canlyniadau disgwyliedig	Cerrig milltir lefel uchel	Canlyniadau a cherrig milltir	Canlyniadau a cherrig milltir
Cyflwyno Strategaeth Gyfathrebu Genedlaethol newydd y CPS Perchennog Pam Teare	Mae'r strategaeth yn amlinellu'r amgylchedd weithredu y bydd y CPS yn cyfathrebu gyferbyn ag ef. Mae'n cynnwys amcanion a rhai camau gweithredu a argymhellir ar gyfer cyfathrebu'n fewnol ac allanol rhwng 2008 a 2011	Sefydlu rhwydwaith cyfathrebu effeithiol ar draws y CPS, ynghyd â blaenoriaethau ac ymdriniaethau cyson, i roi sail ar gyfer gwella ymwybyddiaeth a hyder y cyhoedd, a gwella morâl y staff	Ionawr-Mawrth 2009 - adolygiad thematig o gyfathrebu ar draws Rhanbarthau i feincnodi perfformiad	Ymarferiad holi barn y cyhoedd i fesur yr effaith ar ymwybyddiaeth Yr ail ddigwyddiad i roi gwobrau cenedlaethol i staff	Adolygu'r strategaeth a gwneud gwelliannau yn sgil holi barn y cyhoedd a data arolwg staff Gwelliant yng nghanlyniad arolwg staff ynghylch pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n well
Ymgysylltu â phartneriaethau CDRP trwy'r byrddau LCJB Perchennog Mike Kennedy	Gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr LCJB, ymgysylltu â Phartneriaethau Gostwng Troseddu ac Anhrefn (CDRP) i hysbysu'r broses o flaenoriaethu gweithgarwch y CJS yn lleol a helpu i gyflwyno'r Strategaeth Droseddu	Canolbwyntio mwy ar flaenoriaethau lleol o fewn cynllunio ar draws y CJS ar lefel Ranbarthol, gan gyfrannu at wella hyder yn y CJS	Erbyn Hydref 2008 - Rhanbarthau'r CPS yn cyfrannu at gynlluniau tair blynedd yr LCJB gyda manylion ynghylch sut byddant yn cefnogi cyflwyno'r Strategaeth Droseddu yn lleol	Erbyn Ebrill 2009 - Rhanbarthau'r CPS yn cyfrannu at adolygiad yr LCJB o berfformiad yn erbyn dangosyddion	Y CPS yn chwarae rhan lawn yng ngweithredoedd yr LCJB i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol

Cymorth Cyfreithiol Cydfuddiannol gyda gwledydd eraill Perchennog Roger Daw	Gwell defnydd o dystiolaeth a gesglir dramor yn arwain at erlyniadau mwy effeithiol ac o bosib rhagor o bledion euog cynnar	Gweithredu cydgymorth cyfreithiol (MLA) yn fwy effeithiol o fewn y CPS Rhaglen y CPS o ymgysylltu mewn gwledydd blaenoriaeth bennaf	Erbyn Mehefin 2008 - ymgorffori system gyfathrebu ar MLA gydag Unedau Gwaith Achosion Penodol Cymhleth Cydweithredu agosach gyda gwledydd blaenoriaeth	Perfformiad y CPS ar MLA yn parhau i wella	Perfformiad y CPS ar MLA yn parhau i wella CPS yn cael ei weld fel canolfan ragoriaeth ar MLA
Adeiladu gallu yn rhyngwladol Perchennog Roger Daw	Cymorth i bartneriaid tramor i adeiladu sefydliadau cyfiawnder troseddol	Y CPS yn bartner o ddewis ar gyfer prosiectau cyfiawnder troseddol Lleihau'r niwed i'r Deyrnas Unedig, gydag effaith gadarnhaol ar fusnes y CPS	Mehefin 2008 - nodi gwledydd a sefydliadau blaenoriaeth, a llunio canllawiau i alluogi'r CPS i ddilyn dull strategol, corfforaethol o ran gwaith adeiladu gallu	Adolygu blaenoriaethau yn rheolaidd Parhau i ymgysylltu mewn gwledydd blaenoriaeth dethol Systemau monitro a gwerthuso yn sicrhau arferion da	Adolygu blaenoriaethau yn rheolaidd Parhau i ymgysylltu mewn gwledydd blaenoriaeth dethol Systemau monitro a gwerthuso yn sicrhau arferion da

Pencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron
50 Ludgate Hill,
Llundain EC4M 7EX
Ffôn: 020 7796 8000

Cyfeiriad gwefan:
www.cps.gov.uk

Cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau a sylwadau:
enquiries@cps.gsi.gov.uk

Gallwch anfon cwynion at:
complaints@cps.gsi.gov.uk

Canolfan Ymholiadau'r Cyhoedd,
Ffôn: 020 7796 8500

Dyluniwyd gan écoutez creative cyf
e-bost: info@ecoutez.co.uk

Mai 2008

CPS